# Categoreiddio gwinllannoedd

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yn ymwneud â'ch gwinllan i wahanol raddau, gan ddibynnu ar gategori eich gwinllan.?

## Gwinllan segur

Mae gwinllannoedd segur yn safleoedd nad ydynt yn cael eu cynnal a'u cadw'n rheolaidd. Mae'n bosib eu hadfer, ond yn aml, ymhen amser, bydd y planhigion yn cael eu codi o'r pridd.??

Rydym yn ystyried bod y rhain yn winllannoedd blaenoriaeth isel. Byddem yn cysylltu â'r deiliad cofrestredig i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau mewn statws. Rydym yn ymweld â gwinllannoedd bob pedair blynedd.??

## Gwinllan hobi?

Mae gwinllannoedd hobi yn:

- safleoedd lle mae grawnwin yn cael eu tyfu er mwynhad personol.???
- unrhyw win a wneir at ddefnydd y deiliad cofrestredig ei hun.???
- safleoedd lle na werthir unrhyw rawnwin na gwin sy'n dod o'r gwinllan hobi.???

Rydym yn ystyried bod y safleoedd hyn yn rhai blaenoriaeth isel. Byddem yn cysylltu â'r deiliad cofrestredig i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau mewn statws. Rydym yn ymweld â gwinllannoedd bob pedair blynedd.??

## Gwinllan fasnachol

Mae gwinllannoedd masnachol yn:

- safleoedd lle mae grawnwin yn cael eu tyfu a'u gwerthu fel cnwd masnachol i windy.???
- grawnwin y gellir eu gwerthu i weithgynhyrchwyr eraill i greu sudd grawnwin neu gynhyrchion eraill.???

Yn y math hwn o system, efallai yr hoffech ystyried cael contract ffurfiol i ddiogelu'r ddau barti. Mae rhai contractau enghreifftiol ar gael i aelodau WineGB. Efallai bod gan y gwindy neu'r gwneuthurwr sy'n cymryd y cnwd eu contractau eu hunain.??

Rhaid cludo grawnwin gyda Dogfen Fasnachol Gysylltiedig (CAD), oni bai bod eithriadau yn berthnasol. Byddem yn cysylltu â'r deiliad cofrestredig bob dwy flynedd i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau mewn statws.

Rydym yn ymweld â gwinllannoedd bob pedair blynedd.??

## Gwinllan fasnachol sy'n cynhyrchu neu'n gwerthu gwin

Mewn gwinllan fasnachol, bydd y deiliad yn tyfu ei rawnwin ei hun a naill ai'n eu troi'n win ar y safle neu'n anfon y grawnwin i windy masnachol i'w troi'n win. Gall hyn gynnwys y broses botelu.

Yna, dychwelir y gwin gorffenedig i'r winllan i'w werthu.???

Rhaid i'r deiliad sy'n cynhyrchu gwin lenwi ffurflen gynhyrchu WSB 21 bob blwyddyn. Mae hyn yn nodi'r math o win a gynhyrchir, a faint.??

Os yw'r deiliad yn cynhyrchu ei win ei hun, mae'n rhaid iddo wneud y canlynol:??

- cadw cofnodion cywir am y gwindy??
- cadw cofnodion o unrhyw rawnwin y bydd yn eu brynu neu eu gwerthu??
- cyflwyno datganiad cynhyrchu gwin blynyddol??

Rydym yn ymweld â'r gwinllannoedd hyn o leiaf unwaith y flwyddyn os ydynt yn gwneud eu gwin eu hunain, neu unwaith bob dwy flynedd os yw eu gwin yn cael ei wneud o dan gontract ar safle gwahanol.???

## Gwneuthurwr gwin contract masnachol

Gall deiliad, yn ogystal â chynhyrchu ei win ei hun, hefyd gynhyrchu gwin i dyfwyr eraill. Mae gwinllannoedd masnachol a gwinllannoedd hobi yn defnyddio gwneuthurwyr gwin contract i wneud gwin ar eu cyfer.

Rhaid i'r deiliad wneud y canlynol:???

- cadw cofnodion cywir am y gwindy??
- cadw cofnodion o unrhyw rawnwin y bydd yn eu prynu neu eu gwerthu??
- cyflwyno datganiad cynhyrchu gwin blynyddol??

Rydym yn ymweld â'r safleoedd hyn ddwywaith y flwyddyn.